

Hydref 2003

### Cyflwyniad

Crynodeb yw hwn o Adolygiad Gwybodaeth gan SCIE, *Arloesol, profedig a dibynadwy: Adolygiad o arfer da yma maes gofal maeth*. Awduron yr Adolygiad Gwybodaeth yw Clive Sellick a Darren Howell, Ysgol Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Dwyrain Anglia. Lluniwyd y crynodeb gan Mary Sainsbury, Tîm Datblygu Arfer Da, SCIE.

Disgrifia'r adolygiad gynlluniau pwysig ym maes arferion maethu, a chynlluniau maethu arloesol, gan edrych ar sut y mae'r rhain yn cyfrannu at yr hyn a wyddom am arferion maethu da ac effeithiol, sy'n sicrhau canlyniadau llwyddiannus. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys sawl enghraifft o arferion creadigol sy'n llawn dychymyg.

### Prif negeseuon

- Mae llawer o asiantaethau maethu yn defnyddio tystiolaeth ymchwil er mwyn bod yn llwyddiannus wrth recriwtio – mae cynlluniau recriwtio lleol, er enghraifft, pobl yn siarad â'i gilydd ac erthyglau yn y wasg leol, yn llwyddo.
- Ceir arferion hyfforddiant arloesol, sy'n gydnaws â thystiolaeth ymchwil am yr hyn y dywed gofalwyr sydd ei angen arnynt: rheoli cyswllt, delio ag ymddygiad plant, a chynnal a chefnogi addysg y plant.
- Mae technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn chwarae rôl gynyddol bwysig mewn meysydd allweddol: hyfforddiant, gwybodaeth a gwerthusiadau defnyddwyr.
- Mae asiantaethau'n datblygu ystod eang o gynlluniau i ddal gafael ar eu gofalwyr, er enghraifft, taliadau teyrngarwch, trefniadau 'cyfeillio', rheoli straen a gwasanaethau ar gyfer plant y gofalwyr eu hunain.
- Mae rhai asiantaethau yn cynnig dewisiadau gyrfaoel i ofalwyr o fewn neu'n gysylltiedig â maethu. Mae'r manteision o wneud hynny'n cynnwys dal gafael ar ofalwyr, defnyddio eu medrau mewn ffordd hyblyg, a'u helpu i gael mwy o foddhad o'u gwaith.
- Mae gweithio mewn partneriaeth a chomisiynu yn galluogi llawer o asiantaethau i gynyddu nifer y lleoliadau cyffredinol ac arbenigol sydd ar gael.
- Mae yma dystiolaeth fod y lleoliadau arbenigol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth ac arbennig yn tyfu, ac fe ymchwiliwyd rhai o'r datblygiadau hyn a'u gwerthuso.

- Mae llawer o asiantaethau yn awr yn cynnig gwasanaethau ychwanegol i helpu'r plant a leolir; mae gofalywyr maeth eu hunain yn fodlon pan fo'r plant a phobl ifanc y gofalent amdanynt yn eu derbyn.
- Caiff plant a phobl ifanc maeth gyfleoedd pur aml i leisio'u barn; fodd bynnag, anaml y cyflwynir y farn honno i uwch reolwyr neu aelodau etholedig wrth i bolisi gael ei lunio.
- Cymer gofalywyr maeth ran wrth werthuso sawl agwedd ar y gwasanaethau maeth.
- Prin yw'r cyfleoedd a roddir i rieni a pherthnasau eraill plant maeth i gymryd rhan yn y gwaith o lunio gwasanaethau maethu.

Gofynnodd SCIE i ymchwilywyr ym Mhrifysgol Dwyrain Anglia gynnal adolygiad o'r arferion da cyfredol mewn meysydd allweddol ym maes gofal maeth. Roedd SCIE eisiau dod i wybod sut y mae asiantaethau'n newid ac yn ail-lunio eu gwasanaethau er mwyn defnyddio syniadau a gwybodaeth newydd. Mae SCIE yn rhoi pwys mawr ar y wybodaeth a'r profiad sydd gan arferion ac ymarferwyr i'w cynnig, ac mae'n awyddus i sicrhau eu bod yn hygyrch i'w defnyddio gan bawb sy'n derbyn gwasanaethau maethu, ac yn gweithio yn y maes.

Chwiliodd yr ymchwilywyr am gynlluniau maethu arloesol, yn ogystal â chynlluniau a fu ar waith am beth amser ac a oedd hefyd yn seiliedig ar arfer da sy'n llawn dychymyg. Noda'r adolygiad sawl enghraifft o arfer da, boed newydd eu sefydlu neu wedi hen ennill eu plwyf.

Mae'n bwysig nodi mai rhai enghreifftiau o arfer yn unig a gynhwysir yn y crynodeb hwn. Mae manylion llawn yr holl enghreifftiau o arfer i'w gweld yn y testun llawn.

## Nodau'r adolygiad

Y nod cyffredinol oedd nodi a chasglu cymaint o enghreifftiau o arfer da mewn meysydd allweddol o bwys cenedlaethol ag y bo modd, o'r asiantaethau maethu statudol, gwirfoddol ac annibynnol, a'u cynnig at ddefnydd pawb sy'n cynllunio, trefnu, darparu a defnyddio gwasanaethau maeth.

Mae llawer o asiantaethau, yn unol â'r gwaith ymchwil cyfredol, ac o'r gwerthuso a'r profiad a gasglwyd o'u gwybodaeth o'u gwasanaethau eu hunain, wedi datblygu trefniadaeth, strwythur a dulliau darparu eu gwasanaethau maethu. Pwrpas SCIE oedd casglu'r wybodaeth hon a'i darparu ar ffurf hylaw fel y gallai pob asiantaeth maethu ddysgu ganddi a'i haddasu ar gyfer ei defnyddio yn eu hasiantaethau eu hunain.

Mae gan SCIE rôl allweddol yn y gwaith o gasglu a rhannu gwybodaeth am arfer da fel bod pawb sy'n gweithio ac sy'n defnyddio gwasanaethau maethu yn elwa ohonynt. Trwy wneud hyn, gobeithia SCIE ddatblygu'r hyn a wyddant am yr hyn sy'n gweithio yn y gwasanaeth maethu.

## Prif feysydd

Nodwyd chwe maes allweddol o bwys cenedlaethol mewn gwaith maethu, rhai ohonynt yn gorgyffwrdd â'i gilydd:

1. Recriwtio a hyfforddi gofalwyr maeth
2. Dal gafael ar ofalwyr a chynnig boddhad gwaith trwy ddewis gyrfaoel
3. Creu dewis o leoliadau trwy ddefnyddio gwaith partneriaeth a chomisiynu
4. Maethu plant ag anghenion cymhleth ac arbennig
5. Darparu gwasanaethau ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc a roddir mewn lleoliadau gofal
6. Gwerthuso gwasanaethau maeth trwy gyfranogiad defnyddwyr.

## Trefn yr adolygiad

Rhoddir yr enghreifftiau o arfer yng nghyd-destun y prif astudiaethau ymchwil, a chasgliadau'r adolygiad, yn y chwe maes allweddol yma. Disgrifir yr holl enghreifftiau o arfer yn y cyd-destun hwn. Rhestrir yr astudiaethau ymchwil ar ddiwedd y crynodeb hwn.

## Dulliau a ddefnyddiwyd

Amcan yr adolygiad hwn oedd darganfod cymaint o enghreifftiau ag y bo modd o arferion da ac arloesol ym maes gofal maeth. Felly, ni ddefnyddiodd yr ymchwilyr ddiffiniad cul o'r gair 'arloesol', ac roeddent yr un mor awyddus i ddysgu am ddulliau maethu sy'n sefydliedig, profedig a dibynadwy.

Oherwydd eu profiad o'r maes, llwyddodd yr ymchwilyr i wneud cysylltiadau dewisol â 26 o asiantaethau sy'n nodedig am eu harfer da. Awgrymodd Fostering Network y dylid cysylltu ag 19 asiantaeth faethu arall ac awgrymodd SCIE un arall. Anfonwyd ceisiadau am enghreifftiau eraill at yr holl gyrfff a mudiadau cenedlaethol a lleol priodol. Ceir rhestr ohonynt ar ddiwedd y crynodeb.

Roeddem yn gweithio o fewn cyfnod penodol o amser, rhwng misoedd Ionawr a Mawrth 2003, ac felly er y bu'r chwilio'n gynhwysfawr, nid yw'n holl-gynhwysol, a dewis yr asiantaethau oedd ymateb ai peidio. Roedd llawer o staff maethu yn awyddus i rannu eu harfer da, gan wirfoddoli gwybodaeth am eu cynlluniau.

Roedd y wybodaeth a dderbyniwyd yn ddethol, yn yr ystyr bod staff yr asiantaethau wedi gwirfoddoli i rannu eu harfer da. Bu'r ymchwilyr yn didoli'r enghreifftiau o arfer mewn dwy ffordd: yn gyntaf fe aseswyd pa mor berthnasol oeddent yng nghyswllt y chwe maes allweddol a restrir uchod, ac yn ail, yng nghyd-destun y dystiolaeth ymchwil am yr hyn y gwyddys sy'n effeithiol.

Defnyddiodd yr ymchwilyr eu gwybodaeth a'u profiad i farnu a ddylid cynnwys yr enghreifftiau yn y detholiad terfynol ai peidio, ond ni ofynnwyd iddynt gynnal gwerthusiad systematig.

## Maes allweddol 1: Recriwtio a hyfforddi gofalwyr maeth

### Recriwtio

#### Canfyddiadau'r gwaith ymchwil

Mae llawer iawn o wybodaeth o waith ymchwil am arferion recriwtio effeithiol. Un neges glir iawn yw bod llwyddiant yn aml yn dibynnu ar gynlluniau recriwtio lleol, ac mae pobl yn lledu'r gair ac erthyglau byr yn y wasg leol, er enghraifft, yn gallu bod yn llwyddiannus iawn.

Canfu Triseliotis a'i gydweithwyr fod proffil isel gwaith maethu mewn llawer o awdurdodau lleol yn Yr Alban wedi cael effaith andwyol ar ddatblygiad y gwasanaeth yn gyffredinol, gan gynnwys recriwtio. Denwyd y mwyafrif o ofalwyr maeth at waith maeth oherwydd eu bod wedi siarad â phobl oedd yn darparu gofal maeth yn barod, wedi gweld disgrifiad o waith maeth yn y wasg leol, neu'r ddau.

Roedd gofalwyr maeth yn yr astudiaeth yn credu, pe baent yn chwarae rhan fwy canolog mewn gwaith recriwtio, y gallent fynd i'r afael â llawer o ofnau a stereoteipiau mwyaf cyffredin y cyhoedd am waith maethu, gan godi proffil y gwasanaeth yn ei grynswth. Mae gan Sellick dystiolaeth o ofalwyr maeth 'cwsgr' yn cael eu recriwtio gan Asiantaethau Maethu Annibynnol.

Mae Triseliotis et al (1995) a Sellick a Thoburn (2002) yn dangos bod yn rhaid i asiantaethau maethu ymateb mewn ffordd effeithiol ac effeithlon i'r angen i gynnal diddordeb darpar ofalwyr.

#### Canfyddiadau'r adolygiad hwn

Mae llawer o asiantaethau maethu yn ymateb yn unol â'r hyn a wyddom am arferion recriwtio effeithiol.

#### Enghreifftiau o arfer: recriwtio

##### *Codi'r proffil lleol*

Mae Birmingham wedi agor canolfan recriwtio gofalwyr maeth yn agos at ganol y ddinas. Mae'n croesawu ymwelwyr ac ymholiadau ffôn gan y cyhoedd. Mae ar agor yn ystod oriau masnachol arferol, gan gynnwys agor yn hwyr ar nos lau ac ar fore Sadwrn. Mae'r fenter hon, er nad yw'n gwbl newydd (mae Greenwich, er enghraifft, wedi gwneud rhywbeth tebyg), yn rhoi sylw cyhoeddus amlwg iawn i wasanaeth maethu Birmingham a'i angen am fwy o ofalwyr.

*Annog lledu'r gair*

- Mae Southampton yn talu £20 i ofalwyr maeth am gyflwyno darpar ofalwr maeth a £200 arall unwaith y cânt eu cymeradwyo, ac y lleolir plentyn gyda nhw.
- Mae Chrysalis Care yn talu £150 i ofalwyr maeth am bob gofalwr cymeradwy newydd y maent wedi'u cyflwyno i'r asiantaeth.

**Hyfforddiant****Canfyddiadau'r gwaith ymchwil**

Daeth hyfforddi gofalwyr maeth yn rhan naturiol o wasanaethau maethu. Mae hyfforddiant paratoadol yn awr yn fater cyffredin, ac mae bron pob asiantaeth faethu yn cynnig hyfforddiant S/NVQ. Mae llawer wedi datblygu hyfforddiant i alluogi gofalwyr maeth i ddod yn fentoriaid ac aseswyr ar gyfer gofalwyr eraill.

Pwysleisiodd sawl astudiaeth ymchwil pa mor bwysig yw hyfforddi gofalwyr maeth mewn tri maes allweddol:

- rheoli'r cysylltiad rhwng plant maeth ac aelodau eu teuluoedd biolegol;
- mynd i'r afael â her ymddygiad rhai plant;
- cynnal a chefnogi addysg y plant a chadw cysylltiad â'r ysgolion.

**Canfyddiadau'r adolygiad hwn**

Gwelwyd tystiolaeth o arferion arloesol mewn sawl asiantaeth, yn unol â chanfyddiadau'r gwaith ymchwil.

Mae TGCh yn chwarae rhan gynyddol bwysig ar gyfer hyfforddi gofalwyr, mae rhai asiantaethau, er enghraifft, yn datblygu ei ddefnydd ar gyfer dysgu o bell.

**Enghreifftiau o arfer: hyfforddiant**

- Mae Swydd Warwig yn un o sawl awdurdod lleol sy'n darparu Dyfarniad NVQ 'Gofalu am Blant a Phobl Ifanc' Lefel 3. Fe sefydlodd Ganolfan Hyfforddiant NVQ arbenigol a chyfleoedd dysgu o bell, gan ddefnyddio TGCh.
- Mae Asiantaeth Faethu Annibynnol, Kindercare Fostering, yn datblygu dau gymhwyster ychwanegol, y Dystysgrif mewn Hyfedredd Proffesiynol a'r Diploma mewn Gwaith Maeth, gan fod dadansoddiad Kindercare eu hunain o'u gofalwyr maeth wedi dangos bod tua thraean ohonynt wedi derbyn addysg bellach.

## Maes allweddol 2: Dal gafael ar ofalwyr a chynnig boddhad gwaith trwy ddewis gyrfaol

Dal gafael ar ofalwyr

### Canfyddiadau'r gwaith ymchwil

Mae tystiolaeth ymchwil yn dangos erbyn hyn fod mwyafrif yr asiantaethau maethu yn cynnig i ofalwyr maeth y math o gynhaliath y mae ymchwil yn ei ystyried yn allweddol: seibiannau gwarantedig, llinellau cymorth ar ôl oriau swyddfa, systemau taliadau realistig a threfnus, y cyfle i droi at gymorth arbenigol, cydberthynas waith dda â gweithwyr cymdeithasol, a chydweithio agos â gofalwyr eraill.

### Canfyddiadau'r adolygiad hwn

Daeth yr adolygiad hwn ar draws enghreifftiau o'r math o gynhaliath y mae llawer o asiantaethau'n ei ddarparu erbyn hyn.

Erbyn hyn defnyddir nifer o wahanol gynlluniau cadw, er enghraifft, taliadau teyrngarwch, 'cyfeillio', rheoli straen a gwasanaethau ar gyfer plant y gofalwyr eu hunain.

### Enghreifftiau o arfer: dal gafael ar ofalwyr

- Mae Southampton a Leeds yn cynnig taliadau teyrngarwch a thystysgrifau i'w gofalwyr.
- Mae 'Our Place' ym Mryste yn un enghraifft o ganolfan gofalwyr, llawer ohonynt wedi'u sefydlu yn sectorau'r awdurdod lleol ac annibynnol. Mae'n darparu amgylchedd therapiwtig, ac yn annog teuluoedd maeth a mabwysiedig i gynnal ei gilydd.

Cynnig boddhad gwaith trwy ddewis gyrfaol

### Canfyddiadau'r gwaith ymchwil

Mae llai o dystiolaeth ymchwil yn y maes cymharol newydd hwn. Mae llawer o'r mentrau arfer yn rhai diweddar, ac ar y cyfan ni chawsant eu harchwilio'n annibynnol gan ymchwilwyr. Darganfu astudiaeth Aldgate a Bradley (1999) fod llawer o ofalwyr yn datblygu gyrfaoedd mewn gofal plant, gan gynnwys gofalu am blant, gweithio mewn canolfannau teulu, yn ogystal â gwaith maeth, a'u bod ar y cyfan yn fodlon rheoli eu gyrfaoedd yn y modd yma.

### Canfyddiadau'r adolygiad hwn

Daeth yr adolygiad ar draws sawl enghraifft o asiantaethau'n dechrau cynnig dewisiadau gyrfaol i'w gofalwyr, o fewn neu'n gysylltiedig â gwaith maeth. Rhoddir mwy a mwy o bwyslais ar ddatblygu ffyrdd o feithrin medrau gofalwyr maeth er mwyn cynnig y boddhad gwaith mwyaf posib iddynt, tra ar yr un pryd yn creu cyfleoedd i asiantaethau maethu ddefnyddio eu medrau'n hyblyg. Gall datblygiadau yn y maes yma arwain hefyd at helpu recriwtio a dal gafael ar ofalwyr.

### Enghreifftiau o arfer: cynnig boddhad gwaith

- Mae Kingston upon Hull wedi datblygu rôl gofalwyr trwy eu hannog i fod yn drefnwyr cynadleddau grwpiau teulu, ac yn eiriolwyr a 'chyfeillion' ar gyfer plant maeth.
- Mae Redbridge yn galluogi gofalwyr maeth i gynnal gofalwyr eraill trwy gynnig cyfleoedd am seibiant. Mae dau ofalwr y noson yn staffio llinell gymorth gyda'r nos a llinell recriwtio.

### Maes allweddol 3: Creu dewis o leoliadau trwy ddefnyddio gwaith partneriaeth a chomisiynu

#### Canfyddiadau'r gwaith ymchwil

Dengys y gwaith ymchwil bod llawer o asiantaethau'n cael anhawster i recriwtio a chadw'r ystod o ofalwyr maeth sydd eu hangen i gynnig dewis o leoliadau. Er enghraifft, dim ond 20% o'r awdurdodau yn Lloegr yn Waterhouse (1997) oedd yn honni y gallent wastad gynnig dewis o leoliadau i blant o dan 10 oed, a dim ond 3% ar gyfer plant a phobl ifanc dros yr oedran hwnnw.

#### Canfyddiadau'r adolygiad hwn

Mae llawer o Asiantaethau Maethu Annibynnol ac awdurdodau lleol wedi cydnabod bod angen iddynt gronni eu hadnoddau, yn fewnol a chydag asiantaethau eraill: mae asiantaethau wrthi erbyn hyn yn datblygu cynlluniau arbenigol o fewn eu hasiantaethau eu hunain, ac yn llunio cytundebau partneriaeth a gwasanaeth gydag asiantaethau eraill. Mae rhai'n gynhwysfawr, ac yn cynnwys nifer fawr o asiantaethau, ble y caiff costau, gwasanaethau a safonau eu cytuno a'u monitro. Mae hon yn ffordd fwy priodol o baru plant a phobl ifanc sydd angen cynhaliath emosiynol a chorfforol, sydd ag anabledau, sydd mewn grwpiau o frodyr a chwiorydd, sydd angen gofalwyr maeth hirdymor, a throseddwyr ifanc.

Mae ffordd arall o gynnig dewis o leoliadau, sef cynyddu'n sylweddol y defnydd o leoliadau maeth gyda pherthnasau a chyfeillion, y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn.

**Enghreifftiau o arfer: creu dewis o leoliadau trwy ddefnyddio partneriaethau a chomisiynu**

- Comisiynodd Dinas Derby, Swydd Derby, Dinas Caerlŷr, Swydd Caerlŷr, Swydd Lincoln, Dinas Nottingham a Swydd Nottingham Barnardo's i'w helpu i recriwtio gofalwyr maeth yn y rhanbarth. Mae'r consortiwm hefyd wedi llunio cytundebau lefel gwasanaeth gyda nifer fach o Asiantaethau Maethu Annibynnol.

**Maes allweddol 4: Maethu plant gydag anghenion cymhleth ac arbennig****Canfyddiadau'r gwaith ymchwil**

Mae'n amlwg bod cysylltiad rhwng y categori hwn â'r un uchod, gan fod awdurdodau lleol wedi sôn am anawsterau penodol yn lleoli plant a phobl ifanc ag anghenion arbennig. Dywed gwaith ymchwil wrthym fod gofalwyr plant mewn lleoliadau maeth prif ffrwd yn gorfod ymdopi ag ymddygiad anodd a thrafferthus iawn tra bod gan eraill anghenion iechyd sylweddol iawn.

**Canfyddiadau'r adolygiad hwn**

Mae yna dystiolaeth fod yr arfer o drefnu lleoliadau arbenigol yn datblygu, ac mae rhai cynlluniau wedi cael eu hymchwilio a'u gwerthuso.

**Enghreifftiau o arfer: maethu plant gydag anghenion cymhleth ac arbennig**

- Mae gan Norfolk gynllun maethu arbenigol, sy'n lleoli plant rhwng 5-15 oed. Mae gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol o'r cynllun maethu arbenigol yn gweithio'n agos â staff uned therapiwtig breswyl leol. Mae pecynnau a ffioedd cynhaliaeth gofalwyr, a'r gwasanaethau ar gyfer plant a leolir, yn debyg i'r hyn a gynigir gan asiantaethau maethu annibynnol yn y cylch.

**Maes allweddol 5: Darparu gwasanaethau ychwanegol i blant a phobl ifanc a roddir mewn gofal****Canfyddiadau'r gwaith ymchwil**

Ymhlith yr enghreifftiau o astudiaethau ymchwil mae Farmer et al (2001), sy'n cyfeirio at bwysigrwydd cynghori ar gyfer y bobl ifanc a leolir, y rhan fwyaf ohonynt mewn lleoliadau awdurdodau lleol. Disgrifia Sellick a Connolly (2002) Asiantaeth Faethu Annibynnol lle'r oedd y plant yn cael therapi cyson a'u hanghenion addysgol yn cael eu lleisio gan swyddog cyswllt addysg.

## Canfyddiadau'r adolygiad hwn

Canfu'r adolygiad hwn fod datblygiadau pwysig wedi digwydd mewn llawer o asiantaethau maethu, gan adeiladu ar waith blaenorol. Cyfeiria gofalwyr maeth eu hunain at y boddhad a deimplant pan fydd y plant a'r bobl ifanc sy'n eu gofal yn cael gwasanaethau ychwanegol.

### Enghreifftiau o arfer: darparu gwasanaethau ychwanegol i blant a phobl ifanc a leolir

- Mae Swydd Hampshire wedi penodi swyddog arweiniol ar gyfer addysg plant mewn gofal cyhoeddus, sy'n cynnwys grŵp neilltuol o athrawon a therapydd cymunedol.
- Mae Prosiect Rosta yn Lerpwl yn wasanaeth maethu therapiwtig sy'n cynnig "cynhaliaeth gyffredinol ddwys, aml-ddisgyblaethol ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth". Dangosodd gwaith gwerthuso y llwyddwyd i raddau helaeth i wella sefydlogrwydd y lleoliadau ac i ail-integreiddio pobl ifanc ym myd addysg ac i wella eu cyflawniadau.
- Mae gan Southwark dîm o weithwyr iechyd meddwl sy'n darparu asesiadau a therapi, a phrosiect addysgol i fynd i'r afael â phroblem plant a phobl ifanc nad ydynt yn mynd i'r ysgol, problem y gwelwyd ei bod yn gysylltiedig ag anawsterau gyda'r lleoliadau.

## Maes allweddol 6: Gwerthuso gwasanaethau maeth trwy gyfranogiad defnyddwyr

### Canfyddiadau'r gwaith ymchwil

Darganfu astudiaeth Padbury a Frost (2002) o blant a phobl ifanc maeth, er eu bod yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, mai anaml y cawsai eu safbwyntiau eu cyflwyno i sylw uwch reolwyr neu gynghorwyr etholedig.

Caiff gofalwyr maeth eu hannog i gymryd rhan mewn sawl agwedd ar y gwasanaethau maeth ac maent yn ymatebwyr a thystion pwysig mewn nifer o astudiaethau ymchwil.

Ym maes cyfranogiad rhieni, canfu Harwin ac Owen nad oedd 50% o gynlluniau gofal ar gyfer plant oedd mewn gofal maeth hirdymor yn nodi rôl rhieni yn y broses o wneud penderfyniadau, ac mewn 75% o achosion, nad ydynt yn dweud sut y dylid datrys anghytundebau.

### Canfyddiadau'r adolygiad hwn

Os yw defnyddwyr gwasanaethau'n mynd i gael cynnig y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, mae eu cyfranogiad mewn gwaith gwerthuso yn hanfodol. Rhanna'r adolygiad hwn ddefnyddwyr gwasanaethau maeth yn dri grŵp:

- plant a phobl ifanc;
- gofalwyr maeth a'u teuluoedd;
- rhieni biolegol a pherthnasau eraill.

Ymddengys bod gwahaniaethau amlwg rhwng y ffordd y cyfranoga gofalwyr, plant, rhieni a pherthnasau eraill mewn systemau gwerthuso asiantaethau maethu.

Canfu'r adolygiad fod plant a phobl ifanc maeth yn cael cyfleoedd cynyddol i leisio'u barn. Fodd bynnag, anaml y caiff eu safbwyntiau eu cyflwyno i sylw uwch reolwyr neu gynghorwyr etholedig er mwyn dylanwadu ar bolisi, er y canfuwyd rhai enghreifftiau o ddefnyddio dulliau arloesol o gyflwyno safbwyntiau a syniadau pobl ifanc i sylw rheolwyr a chynghorwyr.

Caiff gofalwyr maeth eu hannog i gymryd rhan mewn sawl agwedd ar y gwasanaethau maeth sy'n eu heffeithio nhw a'r plant y gofalant amdanynt.

Ni welodd yr adolygiad hwn ymron ddim tystiolaeth fod rhieni a pherthnasau eraill plant maeth yn cael eu cynnwys yn y systemau cyfranogi a gwerthuso. Mae hyn yn gyson â chasgliadau ymchwilwyr eraill.

Mae'n bwysig nodi bod TGCh yn cyflawni rôl bwysig a datblygol yn y gwaith o ddatblygu cyfranogiad a gwerthusiad gan ddefnyddwyr.

### **Enghreifftiau o arfer: gwerthuso gwasanaethau maeth trwy gyfranogiad defnyddwyr**

#### *Gan blant a phobl ifanc maeth*

- Mae gan Gyngor Sir Norfolk grŵp 'Kids in Care Together' o bobl ifanc maeth, ynghyd â gwefan arloesol.
- Mae gan Swydd Gaergrawnt grŵp 'Just Us' o blant maeth sy'n cyfarfod yn fisol ac sy'n gweithio mewn tair ardal.

#### *Gan ofalwyr maeth a'u plant*

- Trwy dreulio cyfnodau gyda gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol, caiff uwch reolwyr yn Swydd Gaergrawnt gyfle i fynd yn ôl i lawr y ffatri.
- Mae Westminster wedi gwneud fideo o'i gofalwyr maeth yn cael sgwrs, sy'n cael ei ddefnyddio i hyfforddi pob lefel o staff. Mae'r awdurdod hwn hefyd wedi trefnu holiadur gyda gofalwyr maeth i holi eu barn ar y math o gynhaliaeth sydd ei hangen arnynt.

*Gan rieni a pherthnasau eraill*

Ychydig iawn o dystiolaeth a welodd yr adolygiad hwn fod rhieni a pherthnasau eraill plant maeth yn cael eu cynnwys yn y systemau cyfranogi a gwerthuso, ac mae hwn yn amlwg yn faes y mae angen datblygu pellach ynddo:

- Cynhwysodd Swydd Gaer ymarferiad gwerthuso ar gyfer pobl a chanddynt gyfrifoldebau rhieni, yn ogystal ag ymarferiadau ar wahân gyda phlant maeth a gofalwyr maeth, fel rhan o'i adolygiad o'i wasanaethau.
- Mae Kingston yn cynnwys cyfraniadau rhieni yn eu hadolygiad blynyddol o ofalwyr maeth.

*Rôl TGCh*

- Mae Prosiect Tunnel Light a sefydlwyd ym mis Ebrill 2001 gan Wasanaethau Cymdeithasol Swydd Lincoln, yn defnyddio'r Rhyngwyd i gryfhau cyfathrebu, adborth a chynhaliath rhwng staff y gwasanaethau cymdeithasol, gofalwyr, rhieni sy'n mabwysiadu, rhieni maeth, plant maeth a'r cyhoedd yn gyffredinol. Creu gwefan fu canolbwynt y prosiect, gan gynnig dull o gynnal a datblygu'r cyfathrebu.

**Casgliad**

Nod SCIE oedd casglu a rhannu enghreifftiau o arferion maethu da ac arloesol i bawb sy'n cynllunio, trefnu, darparu a defnyddio gwasanaethau maethu, ac i ofalu bod y wybodaeth yma ar gael yn hwylus, fel y gall yr holl staff ddysgu ganddi a'i haddasu i'w defnyddio yn eu hasiantaethau eu hunain. Roedd llawer o staff mewn asiantaethau maethu yn awyddus i ddweud wrth yr ymchwilyr am yr hyn a wnânt yn dda, ac fe ddynododd yr adolygiad nifer o enghreifftiau o arfer da ac arloesol yn y chwe maes allweddol.

Canfu'r adolygiad fod yna wybodaeth helaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda ym maes gofal maeth, a bod llawer o wasanaethau maethu yn seiliedig ar enghreifftiau o arferion cadarn, a'r rheiny'n ddibynnol ar waith ymchwil.

Roedd rhai meysydd allweddol yn cynnwys mwy o enghreifftiau o arfer nac eraill. Er enghraifft, er y gwelwyd sawl enghraifft o arfer da o ran recriwtio a chadw gofalwyr, roedd llawer llai o enghreifftiau o gynnig boddhad gwaith i ofalwyr trwy ddewisiadau gyrfaol. Mae plant a phobl ifanc, a gofalwyr maeth, yn chwarae llawer mwy o ran na rhieni biolegol a pherthnasau eraill ym maes allweddol gwerthuso gwasanaethau. Hoelia'r adolygiad sylw felly ar rai meysydd ble mae angen datblygu pellach ar wasanaethau maethu.

Mae'r defnydd cynyddol o TGCh yn llunio a llywio gwasanaethau maethu, ac ymhlith yr enghreifftiau a ddynodwyd yn yr adolygiad roedd hyfforddiant ar-lein, cyfathrebu a chynnig

cynhaliaeth trwy e-bost, a datblygu gwefannau arbennig ar gyfer rhannu gwybodaeth a gwerthusiadau gan ddefnyddwyr.

Mae'r adolygiad hwn hefyd yn nodi datblygiad parhaus gwasanaethau ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc maeth, a chynlluniau maethu arbenigol gan awdurdodau lleol ac Asiantaethau Maethu Annibynnol. Mae'r mentrau hyn yn cynnig cynhaliaeth sylweddol i deuluoedd maeth ac ystod o wasanaethau therapiwtig ac addysgol uniongyrchol i blant a phobl ifanc sy'n cynnig cryn heriau oherwydd eu profiadau, eu hanghenion a'u hymddygiad. Tystiolaeth y gwaith ymchwil ar y cyfan yw bod gofalwyr maeth yn fwy bodlon pan fod y plant sy'n eu gofal yn derbyn y gwasanaethau hyn.

Canfu'r adolygiad hefyd fod llawer o Asiantaethau Maethu Annibynnol ac awdurdodau lleol yn datblygu partneriaethau a chytundebau gwasanaethau newydd er mwyn cynyddu nifer ac addasrwydd lleoliadau ar gyfer yr ystod o blant sydd eu hangen.

Anfonwyd ceisiadau am enghreifftiau o arfer da at:

Aelodau o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) yng Nghymru a Lloegr, Adolygiad Choice Protects, Ymchwil ar Waith, Cymdeithas y Plant, Barnardo's, Rhwydwaith Maethu, gan gynnwys y tair Asiantaeth Faethu Annibynnol sy'n aelodau yng Nghymru, y Gymdeithas ar gyfer Mabwysiadu a Maethu, gan gynnwys y 22 aelod o Gymru, ac Ymddiriedolaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Iwerddon. Anfonwyd gwahoddiadau dethol hefyd at nifer o wahanol fudiadau maethu sy'n nodedig am eu harferion da.

Social Care Institute for Excellence  
Goldings House  
2 Hay's Lane  
Llundain SE1 2HB  
Ffôn 020 7089 6840  
Ffacs 020 7089 6841  
Ffôn testun 020 7089 6893  
[www.scie.org.uk](http://www.scie.org.uk)

Bydd fersiynau braille, ar dâp ac argraffiadau print bras ar gael ar gais.

Mae fersiwn lawn o'r Adolygiad Gwybodaeth ar gael ar wefan SCIE ac mewn print oddi wrth SCIE.